Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd
protecting the public through statutory supervision of midwives

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

# Archwiliad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Leol

2012-2013

Awst 2013

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol.  Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Tŷ Bevan**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol y Fan**
**CAERFFILI**
**CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 029 20 928850
**Ebost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 029 20 928877
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

ISBN digidol 978 1 4734 0095 5
© Hawlfraint y Goron 2013
WG19485

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol…………………………………………… | 5 |
| 2 | Cyflwyniad ……………………………………………………... | 6 |
| 3 | Canfyddiadau'r Archwiliad ………………………………………. | 7 |
| 4 | Tystiolaeth bod y safonau wedi'u cyflawni / eu cyflawni'n rhannol / heb eu cyflawni……..…………………………..… | 10 |
| 5 | Casgliad………………………………………………………..… | 45 |
| 6 | Atodiadau.……………………………………………………….. | 46 |

## 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLl), ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod bydwragedd yn cael eu goruchwylio'n statudol yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae manylion y Gorchymyn hwn i'w cael yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor. Yng Nghymru, darperir swyddogaeth yr AGLl gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r AGLl yng Nghymru wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl i gyflawni swyddogaeth yr AGLl ar eu rhan.

**1.2** Diben yr archwiliad blynyddol yw asesu i ba raddau y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol, o'i gymharu â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus.

**1.3 Crynodeb**

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, diwygiodd yr AGLl y broses a ddyfeisiwyd yn 2011-2012 ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth, i'w gwneud yn fwy cymesur ac i ganolbwyntio ar naw safon benodol ledled Cymru lle y dangoswyd yn flaenorol bod angen datblygiad parhaus. Dangosodd yr archwiliad cyfredol hwn y bodlonwyd 78% (7) o'r meini prawf ar gyfer y naw safon â thystiolaeth gref i gymedrol a gwneir argymhellion ar gyfer datblygiad pellach. Bodlonwyd y 22% (2) arall â thystiolaeth gymedrol ac argymhellwyd camau datblygu i gryfhau'r swyddogaeth oruchwylio. Roedd digon o dystiolaeth yn dangos bod prosesau wedi eu sefydlu, ond gellid bod wedi cryfhau'r hyn a gyflwynwyd ar gyfer rhai safonau trwy ychwanegu tystiolaeth i ddangos sut y mae prosesau wedi eu defnyddio a pha ganlyniadau a gyflawnwyd sydd wedi dylanwadu ar newid ymarfer.

Gwneir argymhellion mewn meysydd lle mae'r offeryn archwilio yn nodi bod angen datblygiad i gynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i ddatblygu safonau lle'r oedd tystiolaeth yn llai cadarn a/neu lle y byddent yn elwa o ddatblygiad parhaus yn unol ag amcanion y broses archwilio barhaus. Mae'r AGLl wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf nad bwriad y prosesau archwilio diwygiedig yw bod yn feirniadol; eu nod yw cefnogi datblygiad parhaus drwy ddenu'r adnoddau a'r hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn **www.hiw.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Mae disgwyl i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio'n unol â chyfres gyffredin o safonau i alluogi bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithlon gan wella diogelwch y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. I roi sail i'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn archwilio gwasanaethau bydwreigiaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae proses archwilio'r AGLl yn defnyddio dull hunanadolygu/adolygu cymheiriaid ar gyfer holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a dilynir hyn gan ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i gadarnhau'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y naw safon blaenoriaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl a enwyd, Adolygwr Lleyg yr AGLl, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd cyfagos a Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant. Mae hyn yn eu galluogi i archwilio fel tîm, yn rhoi cyfle i adolygu cymheiriaid a meincnodi ac yn cefnogi'r broses o rannu arfer da. Cafodd adolygwyr lleyg yr AGLl eu cynnwys yn y tîm am y tro cyntaf eleni, gan sicrhau bod safbwynt defnyddwyr yn cael ei geisio drwy gydol y broses archwilio yn lle bod yr adolygwyr lleyg yn cynnal archwiliad digysylltiad ar wahân, fel yn y blynyddoedd blaenorol; cafwyd croeso i hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad â Bwrdd iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 21/02/2013 yn unol â'r cynllun. Gwahoddwyd personél allweddol i fod yn bresennol yn ogystal â thîm goruchwylio'r Bwrdd Iechyd (**Atodiad A - Rhaglen**).

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad gan Vinny Ness, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, a chafodd gymorth Dawn Stone, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o BILl Cwm Taf, Martine Lloyd a Stephanie Williams, Goruchwylwyr Bydwragedd dan hyfforddiant o BILl Caerdydd a'r Fro a BILl Hywel Dda, a Natalie Paisey, Adolygwr Lleyg yr AGLl. Ymunodd Kath Harbisher, Cadeirydd Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, â'r tîm adolygu hefyd.

**2.5** Dechreuodd yr ymweliad arolygu gyda chyflwyniad byr gan Vinny Ness ac yna cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan y Goruchwylwyr Bydwragedd i roi darlun cyffredinol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r gweithgareddau goruchwylio yn ogystal â llwyddiannau'r Goruchwylwyr Bydwragedd, o ran arfer da. Hefyd, roedd yr ymweliad archwilio hefyd yn rhoi cyfle i gyfarfod a rhannu gwybodaeth ynglŷn â goruchwyliaeth gyda'r Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Bydwreigiaeth, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, addysgwyr ymarfer a darlithwyr, myfyrwyr bydwreigiaeth a defnyddwyr gwasanaeth (**Atodiad B – Y rhai a gymerodd ran**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

**3.1** Diben archwiliad blynyddol yr AGLI yw adolygu'r dystiolaeth sy'n dangos bod Safonau Goruchwylio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni; sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith i wella diogelwch mamau a babanod; sicrhau bod arferion bydwreigiaeth wedi'u hategu gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod ymarferwyr yn cael cefnogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnal cymhwysedd clinigol; canfod bod bydwragedd yn cyfathrebu'n effeithiol o fewn y tîm amlddisgyblaethol ac adolygu effaith goruchwylio ar arferion bydwreigiaeth. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn llunio asesiad ar sail y wybodaeth a ddarperir gan Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a thrwy gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Bydwreigiaeth, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd, addysgwyr ymarfer, darlithwyr, myfyrwyr bydwreigiaeth, arweinydd Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth yn ystod yr ymweliad archwilio.

**3.2** Dymuna'r AGLI gydnabod a diolch i'r holl rai hynny a gymerodd ran am yr ymdrech amlwg a wnaed i baratoi ar gyfer yr ymweliad archwilio a'r modd trefnus y cyflwynwyd y ffeiliau tystiolaeth. Mae hyn yn dangos ymrwymiad ac yn gwneud y dystiolaeth yn haws ei dilyn, ac felly mae'r broses yn fwy ystyrlon.

**3.3** **Roedd yr elfennau cadarnhaol ac enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn ystod yr adolygiad yn cynnwys**:

- Datblygiad hysbysiad cryno misol o'r enw **'How are we doing in January, February**' ac ati sy'n dangos i'r bydwragedd gyfanswm nifer y genedigaethau naturiol a'r ganran, wedi ei rhannu yn enedigaethau cartref a rhai mewn unedau dan arweiniad bydwragedd. Mae hyn yn ffordd dda o roi pwyslais ar normaledd ac annog cynnydd yng nghyfradd y genedigaethau naturiol. Ychwanegir unrhyw negeseuon penodol i fydwragedd ar ddiwedd yr adroddiad, sy'n ffordd dda o rannu gwybodaeth bwysig a pherthnasol.
- Syniad arloesol arall i sicrhau bod pawb yn teimlo y gofynnir am eu safbwyntiau ac y gwrandewir arnynt yw gwerthuso barn Goruchwylwyr Bydwragedd am y cyfarfodydd deufisol. Bydd y cynllun gweithredu o'r ymarfer hwn yn sicrhau bod cyfarfodydd yn y dyfodol yn fwy ystyrlon a bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn teimlo mwy o gyfrifoldeb dros yr agenda yn y dyfodol.
- Roedd y diwrnod hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd ynglŷn â Chamau Cyfreithiol ac Unioni Cam yn enghraifft wych o'r staff goruchwyliaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r staff rheoli risg ac roedd yn cynnig cyfle i'r naill a'r llall ddeall swyddogaeth ei gilydd yn well.
- Bydd y llyfr adnoddau a baratowyd gan y tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd i

ddechreuwyr newydd o'r enw **Supervision in ABMU Health Board** o gymorth mawr. Roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r goruchwylwyr a goruchwyliaeth a gwybodaeth allweddol arall i gynorthwyo bydwragedd y mae'n ofynnol iddynt fod ar ddyletswydd ar adeg argyfwng, crynodeb o ganfyddiadau archwiliad o'r cofnodion a gedwir, a llythyr gan y Pennaeth Bydwreigiaeth yn hysbysu'r bydwragedd am yr holl ofynion hyfforddiant blynyddol a gorfodol, y mae'n rhaid iddynt ddod â thystiolaeth eu bod wedi'u dilyn i'w hadolygiad goruchwylio blynyddol.

**3.4 Heriau**

- Fel y rhan fwyaf o'r timau o Oruchwylwyr Bydwragedd, ceir heriau penodol wrth gydbwyso anghenion y swydd barhaol a gofynion bod yn Oruchwyliwr Bydwragedd. Mae hyn yn golygu bod oedi diangen yn aml o ran cynnal ymchwiliadau, ysgrifennu adroddiadau a gweithredu cosbau.
- Nid oes yr un tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru yn cydymffurfio'n llawn ar hyn o bryd â'r broses Adolygiad Goruchwylio Blynyddol, o safbwynt sicrhau bod yr holl fydwragedd wedi derbyn adolygiad blynyddol yn ystod y 12 mis blaenorol.
- Mae'r hinsawdd ariannol anodd yn ei gwneud yn her i gynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd i gael profiad o bob agwedd ar y swyddogaeth y darperir tystiolaeth ar ei chyfer trwy anfon yr offeryn cymhwysedd goruchwylio blynyddol at yr AGLI.
- Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ystyried sut y gallant ddarparu tystiolaeth mewn archwiliadau yn y dyfodol i ddangos sut y maent yn defnyddio'u prosesau cadarn amrywiol a darparu tystiolaeth sy'n dangos sut y mae hyn yn dylanwadu ar newidiadau mewn ymarfer.

**3.5 Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae argymhellion i gynorthwyo tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i ddatblygu gwelliannau i'r swyddogaeth oruchwylio wedi eu nodi dan bob un o safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn yr offeryn archwilio sy'n dilyn. Cyflwynodd y Goruchwylwyr Bydwragedd eu tystiolaeth cyn ymweliad archwilio'r AGLI ac roedd yn ofynnol iddynt nodi unrhyw gamau gwella yr oeddynt o'r farn bod eu hangen i gryfhau eu tystiolaeth o'i gymharu â'r camau a ddisgrifir gan yr AGLI i ddynodi tystiolaeth gref, gymedrol neu wan. Diben y broses ddiwygiedig hon oedd galluogi Goruchwylwyr Bydwragedd i nodi eu camau gwella eu hunain ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a sicrhau eu bod yn teimlo cyfrifoldeb dros ddatblygiadau yn y dyfodol. Nid oedd yr adran cynllun gweithredu o'r offeryn archwilio wedi ei llenwi, ac roedd hwn yn gyfle a gollwyd i'r Goruchwylwyr Bydwragedd amlygu eu meysydd eu hunain i'w datblygu a nodi camau allweddol i'w gwella yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**3.6** Mae'r manylion sy'n sail i'r argymhellion wedi eu hamlinellu yn adran 4 dan sylwadau'r AGLI ac argymhellion. Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg 11 o safonau lle y byddai peth datblygiad o fudd. Bydd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn gweithio gyda'r timau i lunio cynllun gweithredol ar gyfer y

flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn ymdrin â datblygu'r safonau hyn.

**3.7** Dylid cymeradwyo goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg am eu gwaith hyd yn hyn ac am gyfraniad unigolion a'r tîm yn ei gyfanrwydd at wella diogelwch y cyhoedd. Mae gwaith i'w wneud o hyd o ran codi proffil goruchwyliaeth trwy'r gwasanaeth mamolaeth, ond cymerwyd rhai camau i ddiffinio swyddogaethau goruchwylwyr a rheolwyr yn ogystal â sicrhau y cynhelir cysylltiadau gwaith da. Byddai'n fuddiol gweld mwy o oruchwylwyr clinigol yn cael cyfle i gyfrannu mwy at yr agenda lywodraethu ehangach. Mae'r AGLl yng Nghymru'n edrych ymlaen at gydweithio â phob Goruchwyliwr Bydwragedd i sicrhau bod y broses oruchwylio'n effeithiol, i gefnogi datblygiad y broses o oruchwylio a fydd yn dangos i'r Bwrdd bod goruchwylio yn ychwanegu gwerth go iawn at wasanaethau bydwreigiaeth a bod swyddogaeth y goruchwyliwr yn y pen draw'n gwella diogelwch y cyhoedd drwy gefnogi gweithlu bydwreigiaeth diogel.

## 4 Offeryn Hunanasesu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Adborth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI am y Camau Gweithredu a Argymhellir

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI:</th></tr>
<tr><td>V1</td><td>Ceisir barn a phrofiadau bydwragedd o oruchwyliaeth statudol.</td><td colspan="2">• Ar ôl cwblhau unrhyw ymarfer dan oruchwyliaeth neu raglen cymorth datblygu yn llwyddiannus, cynhelir cyfweliad gyda'r fydwraig i drafod ei phrofiadau a'i safbwyntiau am oruchwyliaeth statudol.<br>• Gofynnwyd i fydwraig a oedd wedi dilyn rhaglen datblygu ymarfer yn ddiweddar lenwi ffurflen adborth i roi ei safbwyntiau ynglŷn â'r holl brofiad. (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Cynhaliwyd archwiliad blynyddol a oedd yn gofyn am safbwyntiau a phrofiadau bydwragedd ynglŷn â Goruchwyliaeth yn ystod 2012/2013 (Gweler y canlyniadau yn y ffeil dystiolaeth)<br>• Mae cynllun gweithredu wedi ei lunio gan ddefnyddio canlyniadau'r archwiliad (gweler y ffeil dystiolaeth)<br>• Gofynnwyd i oruchwylwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg roi eu sylwadau ynglŷn â ffurflenni cynnig drafft gan yr AGLI ynglŷn ag Ymarfer dan Oruchwyliaeth (gweler y ffeil dystiolaeth)</td><td>2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio</td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td>V1</td><td>AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf. Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.</td><td>Archwiliad o fwy nag 20% o safbwyntiau bydwragedd<br><br>Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol<br><br>Mae 95 i 100% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn gyffredinol</td><td>Safbwyntiau o leiaf 10% o fydwragedd<br><br>Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol<br><br>Mae 90 – 95% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn bennaf</td><td>0 archwiliad<br><br>Mae llai na 10 yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol, neu'n dweud ei bod yn negyddol<br><br>Mae llai na 90% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad a/neu ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth negyddol</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br>Roedd yr adroddiad cryno o safbwyntiau bydwragedd yn ddefnyddiol. Nodir y cafwyd ymatebion gan 64 o fydwragedd a dywedwyd wrth dîm yr AGLI y dosbarthwyd 75 o holiaduron yn y tri safle yn y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn gyfradd ymateb o 85% ond dim ond 25% o gyfanswm y gweithlu bydwreigiaeth y gofynnwyd iddynt am eu safbwyntiau, ac efallai nad yw hyn yn gwbl gynrychiadol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol a dim ond 2 faes yr awgrymwyd bod angen eu datblygu. Mae'r cofnod tystiolaeth uchod yn awgrymu bod cynllun gweithredu wedi'i baratoi ond nid oedd hwn yn y ffeil dystiolaeth. Roedd y gwerthusiad o raglen cymorth datblygu yn gadarnhaol iawn ac roedd yn nodi bod y rhaglen a'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn gefnogol ac yn adeiladu hyder.</td></tr>
</table>

| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br>Fel yn argymhelliad y llynedd, dylai cynllun gweithredu goruchwyliaeth gan Oruchwylwyr Bydwragedd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg nodi sut y mae'r tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd yn bwriadu dosbarthu mwy o'r archwiliadau o safbwyntiau bydwragedd am oruchwyliaeth a chynyddu'r cyfraddau dychwelyd, a sut y byddant yn ymdrin ag unrhyw feysydd sydd i'w datblygu. |
| --- |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V2 | **Cynhelir gweithgareddau goruchwylio cyfrinachol mewn ystafell sy'n sicrhau preifatrwydd.** | • Ceir swyddfa benodol ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd yn Ysbyty Singleton ar Lefel 3 o'r Bloc Mamolaeth.<br>• Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae gan y Goruchwylwyr Bydwragedd eu swyddfa breifat eu hunain lle y gellir cynnal adolygiadau goruchwylio. Os oes angen ystafell benodedig arall, am ryw reswm, mae ystafell gwnsela ar gael i'w defnyddio.<br>• Mae gan 3 o Oruchwylwyr Bydwragedd eu swyddfeydd penodedig eu hunain yn Ysbyty Tywysoges Cymru a chynhelir yr holl gyfarfodydd ar safleoedd eraill mewn ystafelloedd sy'n sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd.<br>• Mae'r rhyngrwyd ar gael yn rheolaidd ym mhob un o'r ystafelloedd penodedig hyn gan fod yr holl adolygiadau blynyddol bellach yn cael eu cynnal yn electronig.<br>• Mae bydwragedd hefyd yn cael dewis cyfarfod oddi ar y safle lle maent yn gweithio i sicrhau preifatrwydd.<br>• Mae'r holl gyfweliadau ynglŷn ag unrhyw fater goruchwylio yn cael eu cynnal mewn preifatrwydd bob amser. | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | Mesurau: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|---|
| V2<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf.**<br><br>**Diweddariad 2012/13**<br>**Nid aseswyd y safon hon ond mae angen datblygu'r argymhelliad o'r flwyddyn flaenorol ymhellach** | | **Dangoswyd ystafell benodol i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y cynhelir cyfweliadau goruchwylio**<br><br>**Ceir mynediad i'r rhyngrwyd yn yr ystafell benodol er mwyn gallu gweithio ar-lein, yn ogystal â mynediad at gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Mae ystafell benodol ar gael gan amlaf neu gellir dangos i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y sicrheir bod ystafelloedd ar gael**<br><br>**Ni cheir mynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Ni ellir nodi unrhyw ystafelloedd neu mae'n ymddangos y cânt eu neilltuo yn ôl yr angen**<br><br>**Dim mynediad i'r rhyngrwyd**<br><br>**Mae llai na 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** |

| **Sylwadau'r AGLI**<br><br>**Diweddarwyd 2012/13**<br>Yn yr adroddiad cryno o 64 o ymatebion i'r arolwg o safbwyntiau bydwragedd ynglŷn â goruchwyliaeth, nid oes cyfeiriad at faterion cyfrinachedd a phreifatrwydd fel y cyfryw. Er hyn, derbynnir bod y meysydd a gafodd sgôr uchel yn cynnwys y ffaith bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwrando ac yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i bryderon ac yn trin unigolion ag urddas a pharch, ac y gellid ystyried hyn yn gyfystyr â phreifatrwydd. |
|---|
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>**Diweddarwyd 2012/13**<br>Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ystyried sut y byddant yn gwella'r gyfradd ddychwelyd er mwyn cael sampl ehangach o safbwyntiau sy'n fwy cynrychiadol o weithlu bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd cyfan, a sicrhau bod y materion a amlygir uchod yn cael eu profi mewn gwirionedd i wneud yn siŵr bod y tîm yn bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V3 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisïau a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarfer clinigol.** | • Mae gan yr holl fforymau a'r pwyllgorau sy'n datblygu canllawiau a pholisïau gynrychiolydd sy'n Oruchwylydd Bydwragedd yn rhinwedd eu swydd benodedig fel Goruchwyliwr Bydwragedd, ac nid yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth reoli/clinigol arall y gallai fod ganddynt. (gweler y ffeil dystiolaeth)<br>• Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan weithredol wrth lunio, diweddaru a chyfuno polisïau a chanllawiau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.<br>• Anfonir copïau o bolisïau a chanllawiau drafft ar e-bost yn rheolaidd at Oruchwylwyr Bydwragedd er mwyn derbyn eu sylwadau. (Gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae'r cynorthwyydd ysgrifenyddol i'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn sicrhau bod rhestr cynrychiolwyr y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael ei gadw'n gyfredol a bod cynrychiolydd ar bob fforwm a phwyllgor.<br>• Mae polisïau diweddar y mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cyfrannu atynt er mwyn eu datblygu/diweddaru yn cynnwys Cynorthwyo Teuluoedd a Ffrindiau i Esgor; Gofal a Phwythau i'r Perinëwm; canllawiau i-gel; Protocol Neilltuo Gwaith yn Hyblyg; Canllawiau Gweithio ar y Cyd i Fenywod, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a Rhai sy'n Bresennol ar adeg Genedigaeth. | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V3<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gymedrol i gref.**<br>**Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | | **Proses eglur sy'n amlinellu sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r grŵp datblygu canllawiau**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel datblygwyr** | **Mae rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â datblygu canllawiau hyd yn oed os nad yw hyn yn broses ffurfiol**<br><br>**Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel unigolion yr ymgynghorwyd â hwy** | **Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n cyfeirio at Oruchwylwyr Bydwragedd yn datblygu neu'n cymeradwyo canllawiau** |

**Sylwadau'r AGLI**

Er nad oedd proses ysgrifenedig ffurfiol wedi'i sefydlu ar gyfer cyfranogiad Goruchwylwyr Bydwragedd yn y broses o ddatblygu a chadarnhau polisïau, roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos yn amlwg bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn rheolaidd yn cymryd rhan wrth lunio, trafod a chytuno ar bolisïau priodol. Roedd o leiaf un yn nodi'r teitl

| |
|---|
| Goruchwyliwr Bydwragedd ar ddiwedd y polisi. Cyflwynwyd cofnodion is-grŵp addysg y gyfarwyddiaeth Iechyd Menywod a Phlant a oedd yn nodi Goruchwyliwr Bydwragedd fel un o'r aelodau ac roedd yn bresennol yng nghofnodion y grŵp hwnnw hefyd. Roedd rhestr o gynrychiolwyr Goruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer yr holl brif fforymau a phwyllgorau yn y ffeil dystiolaeth, sy'n gam da ond byddai cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn dangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn gyson yn rhinwedd y swyddogaeth honno yn cryfhau'r safon hon.  Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn ymwybodol o drafodaethau polisi yng nghyfarfodydd deufisol y Goruchwylwyr Bydwragedd ac mae'r polisïau eu hunain o ansawdd da ac yn hanfodol wrth gynorthwyo bydwragedd i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Yr enghreifftiau a welwyd oedd cynorthwyo ffrindiau a theulu i esgor, canllawiau i-gel a neilltuo gwaith yn hyblyg. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd ystyried llunio proses ysgrifenedig neu siart llif sy'n nodi'n eglur sut y mae goruchwylwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu a chadarnhau polisïau pan fo'r polisi'n berthnasol i ymarfer bydwreigiaeth.  Os ydynt yn mynd i grwpiau cyfarwyddiaeth lle y cadarnheir polisïau, dylent barhau i sicrhau bod nodiadau ysgrifenedig ar gael sy'n adlewyrchu bod goruchwyliwr yn bresennol ac wedi cyfrannu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Goruchwyliwr Bydwragedd. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V4 | **Mae dogfennau canllawiau a pholisïau lleol ar gael i bob bydwraig ar ffurf electronig neu gopi caled.** | • Mae'r holl bolisïau, pan fyddant wedi eu cadarnhau, ar gael ar y fewnrwyd ar WISDOM.<br>• Mae'r holl fydwragedd wedi derbyn cyfarwyddiadau ar e-bost ynglŷn â sut i ddefnyddio WISDOM a sut i greu cyswllt cyflym ato oddi ar fwrdd gwaith eu cyfrifiadur (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae'r fewnrwyd ar gael i'r holl fydwragedd a gallant drefnu hyfforddiant TG mewnol, os oes angen.<br>• Mae gan bob bydwraig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ei chyfeiriad e-bost gwaith personol ei hun.<br>• Mae pob bydwraig, ar adeg ei hadolygiad goruchwylio, yn derbyn manylion ysgrifenedig ynglŷn â sut i ddefnyddio'r Ffolder Goruchwyliaeth Bydwreigiaeth sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, e.e. Adroddiad Blynyddol Goruchwyliaeth, manylion rhifau ffôn y Goruchwylwyr Bydwragedd, y ffurflen adolygiad blynyddol ac ati. (Gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae copïau caled o rai polisïau a chanllawiau hefyd ar gael i'r bydwragedd.<br>• Mae canllaw cyfeirio, wedi ei lamineiddio, ynglŷn â Monitro'r Ffetws yn Electronig ar bob peiriant monitro ffetws. (Gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Ger bob peiriant dadebru yn y 3 safle, mae copi cyfredol wedi ei lamineiddio o Ganllawiau Cynnal Bywyd y Newydd-anedig gan Gyngor Dadebru'r DU. (Gweler y ffeil dystiolaeth)<br>• Cedwir ffeiliau polisïau mewn man penodol ar rai wardiau a mannau allweddol eraill, sy'n golygu ei bod yn rhwydd mynd atynt os oes angen.<br>• Mae canllawiau a pholisïau cenedlaethol, e.e. NICE, ar gael ar bapur a hefyd ar y fewnrwyd.<br>• Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi sefydlu e-bost grŵp ar gyfer y bydwragedd y maent yn eu goruchwylio i ddosbarthu unrhyw wybodaeth newydd a pherthnasol iddynt e.e. derbyniodd yr holl fydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ganllawiau'n ddiweddar ynglŷn â'r defnydd o'r Mwgwd Breuannol newydd 'i-gel'. (Gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae pob bydwraig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd yn derbyn unrhyw wybodaeth newydd yn y Diwrnod Sgiliau Obstetreg, a hefyd unrhyw daflenni perthnasol.<br>• Mae'r holl fydwragedd yn y Bwrdd Iechyd yn derbyn CD ROM sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf gan y bydwragedd arbenigol ac ati. | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | (Gweler y ffeil dystiolaeth) | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V4<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf.**<br>**Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | | **Proses eglur sy'n dangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu gyda bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Ceir proses eglur i Oruchwylwyr Bydwragedd ddosbarthu canllawiau a sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** | **Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu, ond mae'n amlwg eu bod yn ymwneud â phroses o gyfathrebu â bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwneud y dosbarthu, ond gallant ddangos eu bod yn ymwneud i ryw raddau â sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol o'r canllawiau neu'n cytuno arnynt** | **Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni unrhyw swyddogaeth wrth hysbysu bydwragedd am ganllawiau newydd neu sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** |

**Sylwadau'r AGLI**

Cyflwynwyd digon o dystiolaeth a oedd yn dangos bod copïau papur ac electronig o'r holl ganllawiau a'r polisiau ar gael yn rhwydd i'r bydwragedd. Mae'r rhestr atgoffa i gefnogi trafodaeth yng nghyfarfod yr adolygiad goruchwylio blynyddol yn arfer da, ac mae'n sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi'r wybodaeth allweddol i'r bydwragedd. Mae'r siartiau llif/rhestrau atgoffa eraill ar gyfer pynciau clinigol h.y. asesiadau CTG, Cynnal Bywyd y Newydd-anedig ac ati hefyd yn nodedig. Mae'r ffaith bod CD ROM wedi ei gynhyrchu yn hynod o arloesol. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn y ffeil ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth ar adeg yr ymweliad archwilio bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio gweithgarwch gan y bydwragedd o ran defnyddio polisiau a chanllawiau neu ddangos eu bod wedi eu gweld a'u darllen, er y nodir bod gwybodaeth newydd yn cael ei rhannu yn y dyddiau sgiliau ac ymarfer.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Argymhellir bod y grŵp o Oruchwylwyr Bydwragedd yn llunio proses ynglŷn â'r camau y mae'n ofynnol i'r holl fydwragedd eu cymryd i ddangos eu bod wedi darllen polisi newydd a'u bod yn gyfarwydd â'r cynnwys. Dylai'r broses hefyd gynnwys archwiliadau ar hap gan Oruchwylwyr Bydwragedd o wybodaeth unigolion o'r broses ar gyfer cael gafael ar bolisïau ysgrifenedig ac electronig.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V5 | **Mae gweithdai sgiliau ac ymarferion sy'n berthnasol i'w lleoliad ymarfer, ac a argymhellir gan CEMACH (yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant) ac argymhellion cenedlaethol eraill, ar gael i fydwragedd ac maent yn manteisio arnynt.** | • Mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn ysgrifennu at bob bydwraig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i roi canllawiau eglur iddynt ynglŷn â'r hyn sy'n hyfforddiant gorfodol ar gyfer y flwyddyn (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae grŵp hyfforddiant ac addysg cydnabyddedig yn y Bwrdd Iechyd, a'r Goruchwyliwr Bydwragedd JP sy'n ei gadeirio. Mae GS yn mynychu fel Goruchwyliwr Bydwragedd ac ymdrinnir â'r holl faterion hyfforddiant gorfodol a statudol yn y fforwm hwn. (gweler y ffeil dystiolaeth)<br>• Mae arweinwyr Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn cynnal cronfa ddata ac mae cymorth ysgrifenyddol ar gael. (gweler y ffeil dystiolaeth)<br>• Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio'n agos gyda'r Bydwragedd Datblygu Ymarfer.<br>• Mae arweinwyr Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn anfon e-bost at bob rheolwr bydwragedd Band 7, yn rhoi rhestr o'r dyddiau astudio gorfodol yn y Bwrdd Iechyd (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae pob rheolwr Band 7 yn gyfrifol am drefnu lle i fydwragedd ar y dyddiau sgiliau gorfodol.<br>• Trefnir y lleoedd gydag unigolyn penodol sy'n darparu cymorth gweinyddol, ac mae'r unigolyn hwnnw'n sicrhau y cedwir y niferoedd ar lefel briodol (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae pob bydwraig yn mynychu dyddiau sgiliau ac ymarferion amlddisgyblaethol blynyddol, gorfodol lle bydd Goruchwylwyr Bydwragedd amrywiol yn cymryd rhan a lle maent yn hyfforddwyr cydnabyddedig.<br>• O fis Ebrill 2013 bydd bydwragedd yn cael eu hasesu o ran sgiliau amrywiol yn ystod y diwrnod hwn (gweler y ffeil dystiolaeth – Cynnal Bywyd y Newydd-anedig)<br>• Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ac arweinwyr Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn darparu hyfforddiant ac asesiadau ar ganllawiau Bwydo ar y Fron, yr holl ymarferion Argyfwng Obstetreg, Monitro'r ffetws, Dadebru Babanod Newydd-anedig, Mamau ac Oedolion.<br>• Mae'r hyfforddiant sgiliau ac ymarferion hefyd yn canolbwyntio ar anghenion penodol bydwragedd, yn dibynnu ar eu maes gwaith, e.e. Bydwragedd cymunedol a'r rhai hynny sy'n gweithio mewn Uned Enedigaeth annibynnol.<br>• Mae cyfleoedd i fydwragedd ddilyn cyrsiau eraill, e.e. Dyddiau astudio Monitro'r Ffetws, cyrsiau Rheoli Argyfyngau Obstetrig a Thrawma, PROMPT, cyrsiau Cynnal Bywyd y Newydd-anedig; Nyrsio claf sy'n | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddifrifol wael. (gweler y ffeil dystiolaeth)<br>• Yn ystod y flwyddyn hon mae 2 fydwraig wedi dilyn cwrs cyffredinol 3 diwrnod Cyngor Dadebru'r DU er mwyn bod yn hyfforddwyr Cynnal Bywyd y Newydd-anedig.<br>• Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd DA yn dilyn y cwrs PROMPT ym Mryste ym mis Mehefin 2013 gyda'r nod o ledaenu hyfforddiant PROMPT ymhlith bydwragedd a meddygon yn y Bwrdd Iechyd eleni.<br>• Mae'r holl fydwragedd yn y Bwrdd Iechyd yn y broses o dderbyn hyfforddiant unigol ynglŷn â'r defnydd o'r Mwgwd Breuannol i-gel.<br>• Mae bydwragedd a meddygon y Bwrdd Iechyd wedi mynychu sesiynau hyfforddi ynglŷn â'r defnydd o Actim Partus cyn ei gyflwyno i ymarfer clinigol.  Roedd y Goruchwyliwr Bydwragedd GS yn rhan o'r hyfforddiant hwn (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae pob bydwraig yn y Bwrdd Iechyd wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â sut i fynd i safle Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ar Fonitro'r Ffetws | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V5<br><br>**Diweddarwyd 2012/13**<br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref yn bennaf**<br>**Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | | **Ceir cofnod hyfforddiant sy'n dangos bod rhaglen wedi'i sefydlu o flwyddyn i flwyddyn sy'n ymdrin â'r holl brif sgiliau ac ymarferion a argymhellir gan CEMACH**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 95 - 100% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o gofnod hyfforddiant ond nid yw'n gyfredol nac yn dangos gwelliant parhaus o ran presenoldeb**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 90 - 95% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus.**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Nid oes cynllun hyfforddiant wedi'i sefydlu i gefnogi presenoldeb na gwelliant yn y niferoedd sy'n mynychu**<br><br>**Mae llai na 90% o fydwragedd wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarferion gorfodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mewn blynyddoedd blaenorol**<br><br>**Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** |

**Sylwadau'r AGLI**

**Diweddarwyd 2012/13**
Roedd y ffeil dystiolaeth yn cynnwys llawer o enghreifftiau o gynlluniau hyfforddiant a diweddaru ar gyfer y diwrnodau sgiliau ac ymarferion blynyddol yn ogystal â rhaglen dreigl ar gyfer 2012 i 2013, ac roedd y bydwragedd ar adeg yr ymweliad archwilio yn gallu ei disgrifio. Mae'n amlwg bod y Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i ddarparu digon o

| |
|---|
| weithdai ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn chwarae rhan weithredol er mwyn darparu'r sesiynau hyfforddi. Mae'r llythyr gan y Pennaeth Bydwreigiaeth at bob bydwraig yn eglur ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir gan y staff, erbyn pryd, ac yn rhoi cyngor ynglŷn â'r hyn i'w ddarparu yn yr adolygiad goruchwylio blynyddol i ddangos eu bod wedi bodloni gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r gofynion cyflogaeth. Gwelwyd tystiolaeth eleni o fonitro a gwaith dilynol pan nad oedd unigolion wedi mynychu erbyn dechrau'r flwyddyn galendr er mwyn sicrhau y byddent yn cydymffurfio erbyn Mawrth 13. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>**Diweddarwyd 2012/13**<br>Dylai'r Goruchwylwyr Bydwragedd sicrhau bod y cynllun gweithredol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn dangos sut y byddant yn monitro i ba raddau y mae presenoldeb yn yr hyfforddiant gorfodol yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac yn dangos bod bydwragedd yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn gymwys o ran sgiliau argyfwng. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V6 a V7 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion ynglŷn â gweithgareddau Goruchwylio am 7 mlynedd.** ***Rheol 12.***<br><br>**Caiff cofnodion goruchwylio eu storio mewn ffordd sy'n cynnal cyfrinachedd.** ***Rheol 12.*** | • Cedwir yr holl gofnodion goruchwylio mewn amgylchedd diogel am y cyfnod gofynnol mewn 2 safle, Ysbyty Tywysoges Cymru a Singleton.<br>• Yn Singleton cedwir y cofnodion yn y swyddfa benodol sydd ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd ac yn Ysbyty Tywysoges Cymru fe'u cedwir yn swyddfa'r Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth<br>• Mae gan bob bydwraig ffeil goruchwyliaeth unigol.<br>• Cedwir yr holl ffeiliau dan glo mewn cwpwrdd ffeilio.<br>• Rhaid i unrhyw ffeiliau a gymerir gael eu cadw'n gyfrinachol ac mae ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn sicrhau bod y ffeil yn cael ei dychwelyd i'r cwpwrdd.<br>• Argymhellir na ddylai'r Goruchwylwyr Bydwragedd gadw gwybodaeth gyfrinachol ar eu cyfrifiaduron nac ar gof bach, ar ôl cwblhau eu gwaith.<br>• Mae'n rhaid i bob cof bach fod wedi ei amgryptio a rhaid iddynt gydymffurfio â safonau'r Bwrdd Iechyd (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Cedwir y wybodaeth hefyd yng nghronfa ddata'r AGLI sydd ar gael i'r Goruchwylwyr Bydwragedd trwy ddefnyddio cyfrinair.<br>• Cedwir yr holl gofnodion am weithgareddau goruchwylio am 7 mlynedd.<br>• Ers cyflwyno cronfa ddata'r AGLI, anogir y Goruchwylwyr Bydwragedd i gyd i gadw'r holl gofnodion am weithgareddau goruchwylio yn electronig yn y gronfa ddata.<br>• O fis Ebrill 2013 bwriedir dechrau archwilio'r holl ddata papur i benderfynu a ellir gwaredu'r wybodaeth neu ei throsglwyddo i ffurf electronig. | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | Mesurau: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|---|
| V6 a V7<br><br>**AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref. Ni awgrymwyd unrhyw gamau datblygu.**<br><br>**Ni chafodd y safon hon ei hasesu** | | **Ceir man penodol sydd wedi ei nodi'n eglur ar gyfer cadw cofnodion goruchwylio nad ydynt yn rhan o unrhyw ffeiliau Adnoddau Dynol eraill.**<br><br>**Gellir dangos bod y cofnodion hyn yn mynd yn ôl o leiaf 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio'r broses y byddent yn** | **Ceir man lle y cedwir cofnodion goruchwylio, ond maent yn tueddu i gael eu cadw gyda ffeiliau Adnoddau Dynol eraill, er eu bod yn dal ar wahân ac nad oes modd i bobl eraill gael atynt**<br><br>**Ni ellir dangos bod y cofnodion yn mynd yn ôl 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio rhan o'r broses y** | **Nid oes man penodol ar gael ac mae ffeiliau goruchwylio yn cael eu cadw gyda ffeiliau rheoli/Adnoddau Dynol sydd ar gael i bobl eraill**<br><br>**Ychydig o gofnodion a gedwir yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, neu ddim o gwbl**<br><br>**Nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio'n ddigonol yr hyn y byddent yn ei** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **wneud pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Roedd hwn yn faes a oedd yn cydymffurfio'n gryf ac ni chodwyd unrhyw bryderon gan y Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI wedi gweld y cyfleusterau cadw dogfennau ac roeddynt yn cydymffurfio â'r safonau. Roedd yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer archifo cofnodion neu eu trosglwyddo i'r AGLI os yw anawsterau'n codi ac mae tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod y ffeiliau'n cael eu cadw am 7 mlynedd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V8 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael cymorth gyda'u tasgau gweinyddol yn unol â chyllid yr AGLI.** | • Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd gymorth gweinyddol penodedig gan unigolyn sy'n gweithio 26 awr yr wythnos, o ddydd Llun i ddydd Iau.<br>• Telir y cyflog o'r cyllid sydd wedi ei neilltuo gan yr AGLI.<br>• Mae'n swydd barhaol.<br>• Mae'r swyddogaeth yn cynnwys ystod lawn o ddyletswyddau gweinyddol a chlerigol gan gynnwys gosod agenda a chadw cofnodion mewn cyfarfodydd goruchwylio, llunio adroddiad cyllid chwarterol, trefnu dyddiau astudio i'r Goruchwylwyr Bydwragedd, rota ar alwad misol y Goruchwylwyr Bydwragedd, cofnodi data yng nghronfa ddata'r AGLI, trefnu a hwyluso'r archwiliad o'r cofnodion, Mae hefyd yn gyfrifol am gyfathrebu effeithiol rhwng y Goruchwylwyr Bydwragedd, yr AGLI a'r Pennaeth Bydwreigiaeth (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae PB wedi cymryd y cyfrifoldeb am weinyddu'r rhestr gyflogau electronig ar gyfer y Goruchwylwyr Bydwragedd a rheolwyr bydwreigiaeth eraill.<br>• Mae PB yn mynychu cyfweliadau ymchwiliadau goruchwyliaeth ac yn cadw cofnodion ac yn eu cofnodi ar gyfrifiadur.<br>• Mae hyn yn caniatáu i'r Goruchwylwyr Bydwragedd roi mwy o amser i oruchwyliaeth - gellir gweld tystiolaeth o hyn yn y datganiad incwm a gwariant. | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V8<br><br>**AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref**<br>**Ni chafodd unrhyw gamau eu hawgrymu ar gyfer datblygiad.**<br><br>**Ni chafodd y safon hon ei hasesu** | | **Ceir swyddog gweinyddol penodol sy'n gallu dangos ei swyddogaeth yn eglur o ran cynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd trwy gofnodion a chyfathrebu ar lafar** | **Mae rhywfaint o amser wedi'i neilltuo ar gyfer materion gweinyddol, ond nid yw deiliad unigol y swydd yn gallu dangos cofnodion cystal o'i gwaith na'i ddisgrifio'n dda** | **Gellir gweld trwy adolygu cofnodion ac wrth drafod nad oes amser wedi'i neilltuo mewn gwirionedd ar gyfer cymorth gweinyddol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Roedd tystiolaeth ar gael ar lafar ac yn ysgrifenedig a oedd yn cadarnhau bod y safon hon wedi ei bodloni. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI wedi bod yn dyst i'r cymorth cryf a ddarparwyd gan gynorthwyydd gweinyddol y Goruchwylwyr Bydwragedd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n aelod effeithiol iawn o'r tîm goruchwylio.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Ni oes unrhyw argymhellion er mwyn datblygu oni bai bod anghenion y tîm yn cynyddu neu'n newid.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V9 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a chaiff y trafodion eu cofnodi.** | • Cynhelir cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd bob 6 - 8 wythnos (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Cytunir ar ddyddiadau ac amserau yn flynyddol ar y cyd â'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd.<br>• Cynhelir cyfarfodydd yn y prynhawn yn gyffredinol er mwyn ei gwneud yn haws i bobl fod yn bresennol. Cynhelir y cyfarfodydd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd oherwydd bod y cyfleusterau parcio a mynediad yn hwylus.<br>• Ymdrinnir ag achosion unigol ar ddiwedd y flwyddyn lle mae pobl yn ei chael yn anodd mynychu oherwydd pwysau gwaith, a'u cywiro os yw hynny'n bosibl<br>• Mae pawb sy'n mynychu yn cael eu rhestru, yn unol â'r Cylch Gorchwyl penodol.<br>• Mae agenda'n cael ei chytuno gyda'r Goruchwylwyr Bydwragedd a'i llunio gan y cadeirydd ac ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br>• Rhestrir eitemau agenda ar ffurf newydd i adlewyrchu safonau'r AGLI ar gyfer goruchwyliaeth (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion ac yn eu dosbarthu i'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd ar e-bost (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt ac ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwneud gwaith dilynol ar unrhyw bwyntiau gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.<br>• Gwahoddir Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i bob cyfarfod.<br>• Ceir adborth rheolaidd ar ôl pob cyfarfod â'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt – gan y Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt neu'r dirprwy<br>• Trafodir Cynllun Gweithredol Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd ym mhob cyfarfod ac mae ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei ddiweddaru (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Gwahoddir siaradwyr gwadd amrywiol eraill er enghraifft SD, sef y Fydwraig Arweiniol dros Addysg, Prifysgol Abertawe, i fynychu o bryd i'w gilydd. Bydd PB yn gwahodd un o'r Arweinwyr Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r cyfarfod nesaf. (gweler y ffeil dystiolaeth) | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V9 | | **Ceir cofnodion eglur o** | **Ceir cofnodion o gyfarfodydd ond** | **Nid oes trywydd cofnodion y gellir ei** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref.**<br><br>**Diweddariad 2012/13**<br>**Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | **gyfarfodydd gyda Chylch Gorchwyl a chynllun gweithgarwch/gosod agenda**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol yn eglur ac mae lefel presenoldeb o 70 – 75% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses eglur ar gyfer dosbarthu cofnodion a neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **nid oes proses eglur ar gyfer gosod yr agenda na Chylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol ac mae lefel presenoldeb o 50 - 70% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses ar gyfer dosbarthu cofnodion ond nid yw mor amlwg sut y cymerir camau gweithredu a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny**<br><br>**Roedd 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **archwilio, Cylch Gorchwyl na chynllun eglur ar gyfer gosod agenda**<br><br>**Mae'n ymddangos bod llai na 50% yn bresennol yn rheolaidd ym mhob cyfarfod**<br><br>**Nid oes proses wedi'i sefydlu ar gyfer dosbarthu cofnodion na neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** |

**Sylwadau'r AGLI**

**Diweddarwyd 2012/13**
Mae tîm goruchwylio'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu rhwydwaith cryf o oruchwylwyr sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Byddai cyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn elwa o gael mwy o her gadarn i ddangos pa mor effeithiol yw'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn eu swydd eirioli. Mae angen gweld mwy o drafodaeth o hyd ynglŷn â Digwyddiadau Difrifol yn unol â threfn yr AGLI, i sicrhau bod gwahaniaeth eglur rhwng camau gweithredu goruchwylwyr a rheolwyr, ac mae cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer y ddau sydd yna'n cael eu monitro ym mhob un o gyfarfodydd y goruchwylwyr. Mae'r cofnodion yn gofnod defnyddiol o'r drafodaeth ac maent yn cael eu rhannu'n brydlon. Mae'r gwerthusiad gan Oruchwylwyr Bydwragedd o'r cyfathrebu mewn cyfarfodydd tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn enghraifft o arfer da a bellach mae angen cynllun gweithredu penodol i ddatblygu'r meysydd a nodwyd sy'n peri pryder. Mae angen datblygu'r cynllun gweithredol ymhellach, a byddai hyn yn gyfle i ymdrin ag effeithiolrwydd cyfarfodydd tîm y Goruchwylwyr Bydwragedd.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

**Diweddarwyd 2012/13**
Mae angen i'r tîm barhau i fonitro'r niferoedd sy'n mynychu pob cyfarfod a rhannu'r llwyth gwaith yn briodol. Os yw ymrwymiadau gwaith yn atal yr un rhai rhag mynychu'n barhaus, rhaid ystyried hyn a rhoi cynlluniau ar waith i gynorthwyo pob Goruchwyliwr Bydwragedd i gyfrannu at agenda'r tîm a chymryd rhan weithredol yn y cynllun gwaith goruchwylio. Mae angen cwblhau a diweddaru'r cynllun gweithredol er mwyn cynnwys cam sy'n sicrhau bod y Goruchwylwyr Bydwragedd i gyd yn teimlo bod ganddynt lais a bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V10 | **Mae mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth a ddosberthir gan gyrff statudol.** | • Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt, ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd a'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael eu hysbysu am faterion cyfredol (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt ac ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn sicrhau bod gwybodaeth gan gyrff statudol e.e. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yr AGLI, Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynecolegwyr, Coleg Brenhinol y Bydwragedd a'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn cael ei dosbarthu i bob Goruchwyliwr Bydwragedd a staff perthnasol eraill (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Gallai'r cyfathrebu fod ar lafar, yn electronig, e.e. ar e-bost neu ar bapur.<br>• Lledaenir gwybodaeth ar lafar hefyd yng nghyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd a fforymau Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt.<br>• Mae cofnodion pob cyfarfod yn cael eu dosbarthu i bob Goruchwyliwr Bydwragedd ac maent hefyd ar gael yn swyddfa'r Goruchwylwyr Bydwragedd (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae gan ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd a Swyddog Cymorth yr AGLI berthynas waith agos. | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** Cryf | Cymedrol | Gwan |
| V10<br><br>**AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref**<br>**Ni chafodd unrhyw gamau eu hawgrymu ar gyfer datblygiad.**<br><br>**Ni chafodd y safon hon ei hasesu** | | **Mae proses eglur wedi'i sefydlu y gellir dangos ei bod yn sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth gan gyrff statudol h.y. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion**<br><br>**Gallai 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Mae proses rannol wedi'i sefydlu, ond nid oes tystiolaeth eglur i ddangos sut y mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn y wybodaeth**<br><br>**Gallai 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Nid oes proses eglur wedi'i sefydlu ac mae'n ymddangos bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar hap ac yn ôl y gofyn**<br><br>**Gallai llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** |

| |
|---|
| **Sylwadau'r AGLI**<br><br>Gwelir bod gweinyddwr y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynorthwyo i sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n aml ac yn brydlon, ac mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt hefyd yn hwyluso'r gwaith o rannu gwybodaeth gan yr AGLI a fforymau cenedlaethol eraill yn effeithiol gyda'r Pennaeth Bydwreigiaeth a thîm ehangach y Goruchwylwyr Bydwragedd.  Roedd tystiolaeth i'w gweld yn y ffeil dystiolaeth y rhennir gwybodaeth o amrywiol ffynonellau. Gwelwyd tystiolaeth hefyd yn ystod ymweliad yr AGLI, ac yr oedd pob Goruchwyliwr Bydwragedd y cyfarfu'r tîm â nhw yn gallu disgrifio'r broses. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V11 | **Mae strategaethau fframweithiau Llywodraethu Clinigol Lleol yn cydnabod goruchwyliaeth statudol i fydwragedd.** | • Mae fframwaith llywodraethu clinigol y Bwrdd Iechyd wedi ei gynnwys dan y teil cyffredinol Ansawdd a Diogelwch.<br>• Mae hwn wedi ei rannu'n wahanol grwpiau e.e. Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, archwilio, rheoli risg, hyfforddiant ac addysg.<br>• Mae cylch gorchwyl pob grŵp yn sicrhau eu bod yn adlewyrchu cyfraniad cadarn gan Oruchwylwyr Bydwragedd oherwydd bod gan Oruchwylwyr Bydwragedd gynrychiolydd penodol.<br>• Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd MD yn aelod o'r pwyllgorau Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd ac archwilio ac mae GS yn aelod o'r Pwyllgorau Hyfforddiant ac Addysg a Risg. Maent yno i gynrychioli goruchwyliaeth statudol bydwragedd ac nid yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth arall. Mae ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd wedi creu rhestr o'r holl bwyllgorau a'r fforymau sy'n cyfarfod yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod Goruchwyliwr Bydwragedd yno i gynrychioli goruchwyliaeth (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Ceir cylchlythyr Rheoli Risg erbyn hyn (gweler y ffeil dystiolaeth) – y bwriad yw y bydd yn cynnwys adran yn benodol ynglŷn â Goruchwylio a chydweithio agos rhwng y Goruchwylwyr Bydwragedd a'r tîm rheoli risg.<br>• Os cynhelir ymchwiliad ar y cyd i ddigwyddiad clinigol o safbwynt rheolaeth a goruchwyliaeth, fe'u cynhelir ochr yn ochr fel arfer, os bydd modd, rhag dyblygu gwaith a thystiolaeth ac i gadw o fewn fframwaith mwy prydlon, ac i gynyddu'r cydweithio rhwng y rheolwyr a'r goruchwylwyr. | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | Mesurau: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|---|
| V11<br><br>**AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gymedrol i gref. Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | | **Ceir polisi ysgrifenedig eglur yn yr adran llywodraethu clinigol sy'n ystyried y rhyng-gysylltiad rhwng y timau llywodraethu Clinigol/Goruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Ceir cofnodion rheolaidd o gyfarfodydd lle y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn** | **Nid oes polisi ysgrifenedig wedi'i sefydlu, ond mae rheolwyr llywodraethu clinigol yn gallu disgrifio'r hyn y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud a sut y maent yn cyfrannu at yr agenda llywodraethu clinigol ar hyn o bryd**<br><br>**Roedd Goruchwyliwr Bydwragedd yn bresennol yn y pwyllgor llywodraethu clinigol priodol, neu** | **Nid oes tystiolaeth eglur i ddangos bod y tîm llywodraethu clinigol yn cydnabod Goruchwylwyr Bydwragedd, ac ni allant ddisgrifio'r rhyng-gysylltiad yn eglur**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwyliwr Bydwragedd yn mynychu unrhyw bwyllgor llywodraethu clinigol yn ei hawl ei hun hyd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **bresennol yn rhinwedd eu swyddogaeth oruchwylio ac yn dangos eu cyfraniad at yr agenda llywodraethu clinigol** | **wedi cyfrannu ato, ar 2 achlysur o leiaf yn ystod y flwyddyn flaenorol** | **yn oed os yw hi yno yn rhinwedd dwy swyddogaeth** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae'r safon hon wedi datblygu ers yr ymweliad archwilio diwethaf, yn enwedig ar ôl penodi Bydwraig Risg. Roedd tystiolaeth bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfrannu at agenda llywodraethu clinigol ehangach y gyfarwyddiaeth Iechyd Menywod a Phlant ac roedd rhestr o'r Goruchwylwyr Bydwragedd sy'n gynrychiolwyr ar yr holl brif fforymau a phwyllgorau ar gael yn y ffeil dystiolaeth. Mae hwn yn ddatblygiad da ond mae angen ychydig yn fwy, o safbwynt dangos yng nghofnodion y cyfarfodydd hyn bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn rhinwedd y swyddogaeth honno. Nodwyd bod aelodaeth yr is-grwpiau yn parhau i fod yn gyfyngedig i uwch reolwyr sy'n Oruchwylwyr Bydwragedd ond mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i Oruchwylwyr Bydwragedd sy'n gweithio mewn meysydd mwy clinigol gael profiad o'r agenda llywodraethu clinigol ehangach, hyd yn oed mewn swyddogaeth gysgodi. Ni chyfarfu tîm yr AGLI ag unrhyw un o'r adran risg corfforaethol ond treuliwyd amser gyda'r Fydwraig Risg sy'n cwblhau ei hyfforddiant i gael ei phenodi'n Oruchwyliwr Bydwragedd. Mae'n amlwg bod y Fydwraig Risg yn canolbwyntio ar gyfuno ymchwiliadau rheoli a goruchwylio a rhannu'r gwersi o'r ddau gan ei bod o'r farn nad oedd yr arfer hwn wedi'i ymwreiddio'n dda iawn. Roedd y cylchlythyr rheoli risg yn llawn gwybodaeth ac roedd pwyslais ar rannu gwybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd. Hysbyswyd yr AGLI y bydd y cylchlythyr yn cynnwys adran ar oruchwyliaeth statudol yn y dyfodol a'i gysylltiadau â rheoli risg. Mae'r AGLI wedi arsylwi bod peth gwaith agosach wedi'i wneud o ran cyfweliadau ar gyfer ymchwiliadau, ond mae angen mwy o waith i sicrhau bod dau unigolyn yn gweithio gyda'i gilydd ochr yn ochr ond o wahanol safbwyntiau, gan ddod i gasgliadau ar yr un adeg er mwyn gochel rhag gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Dylai'r tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd sicrhau bod Goruchwyliwr sy'n mynychu unrhyw fforwm yn rhinwedd y swyddogaeth honno yn cael ei gofnodi felly beth bynnag yw ei swyddogaethau eraill, gan fod goruchwyliaeth yn dod â safbwynt gwahanol. Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd profiadol sy'n uwch reolwyr ystyried ffyrdd o rannu gwybodaeth a darparu cyfleoedd i gydweithwyr eraill sy'n Oruchwylwyr Bydwragedd, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ehangach yn cael eu mynegi yn ogystal â chaniatáu ar gyfer datblygiad personol. Mae angen i Oruchwylwyr ganolbwyntio ar weithio ar y cyd â rheolwyr risg fel sy'n briodol yn ystod ymchwiliadau sy'n ymwneud â materion ymarfer bydwreigiaeth, i osgoi dyblygu gwaith gan gadw'r swyddogaethau a diben goruchwyliaeth yn wahanol ac ar wahân.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V12 | **Mae rhyng-gysylltiad amlwg rhwng goruchwylio a rheoli risg wrth ymchwilio i ddigwyddiadau critigol.** | • Mae cysylltiad cryf rhwng goruchwylio a rheoli risg.<br>• Cofnodir pob digwyddiad clinigol difrifol ar y system DATIX.<br>• Adolygir yr holl ddigwyddiadau clinigol hyn yn ddyddiol gan y bydwragedd arweiniol ym mhob safle.<br>• Trafodir digwyddiadau mewn cyfarfod risg clinigol a gynhelir bob tua 4 wythnos.<br>• Mae Goruchwyliwr Bydwragedd yn rhan o'r grŵp risg ac mae'n mynychu cyfarfodydd yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Goruchwyliwr Bydwragedd<br>• Nodir unrhyw faterion goruchwylio a chytunir ar gamau priodol.<br>• Trafodir unrhyw adroddiadau neu wybodaeth gan yr AGLI yn y cyfarfodydd hyn ac maent yn eitem barhaol ar yr agenda (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Os yw'n berthnasol ac yn briodol bydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnal adolygiad o'r nodiadau o safbwynt clinigol neu oruchwyliaeth, neu ymchwiliad goruchwylio.<br>• Cofnodir yr holl adolygiadau am ddigwyddiadau clinigol yn ogystal â'u cynlluniau gweithredu ar y system DATIX ac fe'u trafodir yn y cyfarfod risg os yw'n briodol. Cytunir ar unrhyw gamau ychwanegol gan y grŵp.<br>• Os yw'r Uned Llywodraethu Clinigol yn cynnal Dadansoddiad o Wraidd y Broblem, penodir Goruchwyliwr Bydwragedd i roi cyfraniad bydwreigiaeth os yw hynny'n berthnasol.<br>• Cafodd Goruchwylwyr Bydwragedd gyfle i fynd i weithdy blynyddol yr AGLI a oedd yn ymdrin â llawer o sefyllfaoedd meddygol-gyfreithiol dan arweiniad y cyfreithiwr Andrew Andrews (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Trefnodd y Goruchwylwyr Bydwragedd weithdy 'mewnol' hefyd ar y cyd ag Adran Gyfreithiol ac Unioni Cam y Bwrdd Iechyd, a gwahoddwyd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i'r diwrnod hwn. Prif bwyslais y diwrnod astudio hwn oedd ymestyn gwybodaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ogystal â gwella a chryfhau'r cysylltiad rhwng rheoli risg a goruchwylio (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae'r tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd yn trefnu diwrnod astudio ar gyfer bydwragedd a meddygon gan ganolbwyntio ar wahanol agweddau ar Lywodraethu Clinigol a DATIX er mwyn amlygu themâu pwysig a chreu gwell dealltwriaeth o'r system (gweler y ffeil dystiolaeth). | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V12 | | **Ceir cylch gorchwyl eglur ar** | **Nid oes cylch gorchwyl** | **Nid oes cydnabyddiaeth fod angen i** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AGLI - BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gymedrol i gref. Nodwyd argymhellion er mwyn gwella.** | **gyfer adolygu digwyddiadau difrifol sy'n cynnwys yr angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses** | **ysgrifenedig sy'n nodi y dylai Goruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o gyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol, ond gall aelodau staff llywodraethu clinigol a Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio bod hyn yn digwydd** | **Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses adolygu digwyddiadau difrifol** |
| | **Pan fo canlyniadau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem a gynhaliwyd ynglŷn â digwyddiad difrifol yn cael eu hadolygu ar sail tîm amlddisgyblaethol, ceir tystiolaeth eglur bod Goruchwyliwr Bydwragedd wedi bod yn rhan o'r tîm yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Goruchwyliwr Bydwragedd er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd a'r tîm llywodraethu clinigol yn cydweithio mewn adolygiad o ddigwyddiad difrifol ac yn arbennig pan fo gwersi i'w dysgu o ran arfer bydwreigiaeth** | **Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol ac nid oes proses iddynt rannu gwersi gyda'r tîm bydwreigiaeth** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae'n amlwg bod y tîm o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi gwneud llawer o waith ar y safon hon a bydd y trefniadau gweithio ar y cyd yn gwella eto yn sgil penodi Bydwraig Risg. Fel yn Safon 11 mae'r AGLI wedi sylwi ar beth tystiolaeth o waith agosach mewn cyfweliadau ar gyfer ymchwiliadau, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau bod dau unigolyn yn gweithio gyda'i gilydd ochr yn ochr ond o wahanol safbwyntiau yn hytrach na bod ymchwiliadau'n cael eu harwain gan reolwyr yn bennaf a goruchwyliwr yn dod i mewn i'r broses yn hwyrach. Roedd y gweithdy ar y cyd gyda'r tîm Gweithio i Wella yn ddiwrnod gwych a llawn gwybodaeth. Roedd llawer yn bresennol, a rhoddodd gyfle i Oruchwylwyr Bydwragedd ddeall y system rheoli risg yn well. Byddai wedi bod yn gryfach o safbwynt goruchwylio pe byddai gwybodaeth wedi ei chyfnewid gan Oruchwylwyr Bydwragedd ynglŷn â'u swyddogaeth a sut y gellid gwella ansawdd ymchwiliadau i bawb dan sylw trwy gydweithio. Eto, mae'n ymddangos y byddai'r cylchlythyr rheoli risg yn cynnig y posibilrwydd o gydweithio agosach a rhannu gwybodaeth yn well rhwng rheolwyr a goruchwylwyr.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd ganolbwyntio ar fod yn fwy rhagweithiol mewn adolygiadau achos ar ôl digwyddiadau critigol gan y byddai hyn yn eu galluogi i nodi angen am ymchwiliad goruchwylio a chael eu cynnwys yn briodol mewn proses ymchwilio ar y cyd gyda'r rheolwyr yn hytrach na dyblygu eu swyddogaeth neu ddod at y bwrdd pan fo'r ymchwiliad gan y rheolwyr wedi dechrau. Gellid cryfhau'r ffeil dystiolaeth trwy ychwanegu cofnodion cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol pan adolygir achosion o Ddigwyddiadau Difrifol a phan mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu dangos eu cyfraniad at y broses o ran ymarfer bydwreigiaeth sy'n is na'r safon ofynnol. Byddai hyn hefyd yn rhoi cymorth prydlon i adsefydlu bydwragedd, a gellir gwneud hynny ar y cyd â galluogrwydd, os nodir hynny.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V13 | **Caiff canlyniadau ymchwiliadau i ddigwyddiadau critigol eu dosbarthu er mwyn rhoi sail i arferion.** | • Mae gan bob ymchwiliad o ddigwyddiadau clinigol gynllun gweithredu priodol lle y nodir unrhyw newidiadau i ymarfer.<br>• Lledaenir newidiadau mewn ymarfer a gwersi a ddysgwyd ymhlith y staff mewn dulliau amrywiol.<br>• Rhoddir adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r holl staff dan sylw mewn achos o ddigwyddiad difrifol.<br>• Lledaenir y canlyniadau i'r staff hefyd yn ystod dyddiau sgiliau, ac mewn cyfarfodydd rheolwyr wardiau, cyfarfodydd archwilio a grwpiau fel fforymau cyn-geni ac ôl-eni, cyfarfodydd bydwragedd cymunedol ac ati… mae'r canlynol yn enghreifftiau o hyn:<br>a) Cyflwyno clustfeinio ysbeidiol mwy deallus ar y ffetws.<br>b) Sticer CTG yn ystod yr enedigaeth.<br>• Mae'r ddau uchod yn rhan o'r diweddariad monitro ffetws i bob bydwraig (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Ceir rhaglen hyfforddiant benodol ar gyfer unrhyw offer newydd a gyflwynir o ganlyniad i ddigwyddiad difrifol, cyn dechrau ei ddefnyddio o ddydd i ddydd, e.e. Mwgwd Breuannol 'i-gel' (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Atgoffir yr holl fydwragedd a'r meddygon y gallant dderbyn adborth ar ddigwyddiadau y byddant yn eu cofnodi'n bersonol ar Datix ond rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cynnwys eu cyfeiriad e-bost yn y gwaith yn y cofnod yn Datix.<br>• Mae'r cylchlythyr rheoli risg yn rhoi adborth ynglŷn â themâu a thueddiadau'r gwasanaethau mamolaeth, yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â chwynion a hawliadau cyfreithiol a hefyd yn pwysleisio negeseuon allweddol i hybu gofal diogel o ansawdd uchel. Bwriedir cydweithio gyda'r Rheolwr Risg yn y cylchlythyr nesaf i gynnwys themâu o faes Goruchwyliaeth i sicrhau perthynas waith fwy cadarn fyth rhwng Risg a Goruchwyliaeth (gweler y ffeil dystiolaeth). | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | Mesurau: Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|---|
| V13<br><br>**AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gymedrol.**<br>**Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | | **Ceir proses eglur a dulliau gwirioneddol o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol gyda bydwragedd yn ymarferol**<br><br>**Ceir enghreifftiau o newidiadau i** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o ddull o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol h.y. cylchlythyr, ond nid yw hyn wedi'i ymsefydlu'n dda**<br><br>**Ceir tystiolaeth anecdotaidd o** | **Nid oes proses ffurfiol nac anffurfiol ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes unrhyw ganlyniadau a all ddangos** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **arferion gwaith y gellir eu rhannu i ddangos bod y broses hon yn gweithio**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod unrhyw newidiadau i arferion gwaith sy'n deillio o ganlyniadau digwyddiad difrifol wedi eu harchwilio i sicrhau eu bod wedi arwain at welliant**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **newidiadau i arferion gwaith ond ni ddilynwyd proses ffurfiol i'w cyflwyno**<br><br>**Ceir tystiolaeth o newidiadau i arferion gwaith ond nid ydynt wedi eu harchwilio i fesur llwyddiant**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth o archwilio newidiadau i arferion gwaith**<br><br>**Gall llai na 10 bydwraig ddisgrifio unrhyw beth tebyg i broses ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol a sut y mae'r rhain yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |
| **Sylwadau'r AGLI**<br><br>Roedd y ffeil dystiolaeth yn cynnwys llawer o wybodaeth ynglŷn â'r gwaith cefndir a wnaed i ddylanwadu ar newidiadau mewn ymarfer ar ôl digwyddiadau h.y. adolygiad llenyddiaeth ym maes Clustfeinio Ysbeidiol Deallus, canllawiau ar sail tystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Bydwragedd ynglŷn â Chlustfeinio Ysbeidiol Deallus, y model CALMLY a sticer CTG, ac mae'r holl waith hwn i'w ganmol. Er hyn, nid yw'n dangos tystiolaeth o newid mewn ymarfer a phroses archwilio i sicrhau bod newid er gwell wedi digwydd. Mae'r cylchlythyr rheoli risg yn adnodd da ar gyfer rhannu gwybodaeth a gellir cryfhau hyn ymhellach trwy ychwanegu'r hyn a ddysgwyd o ymchwiliadau goruchwylio. | | | |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Fel yn achos yr archwiliad blaenorol, mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd sicrhau ei bod yn amlwg pan fyddant yn gwneud unrhyw waith yn rhinwedd eu swydd fel goruchwylwyr a dylid parhau i gydgysylltu gyda'r AGLI pan nodir problemau'n ymwneud ag ymarfer bydwreigiaeth. Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd sicrhau bod tystiolaeth eglur o gynllunio a gweithredu newidiadau gwirioneddol mewn ymarfer, gan gynnwys amserlen ar gyfer gwerthuso a thystiolaeth o archwilio i ddangos eu bod wedi cyfrannu at welliannau i'r gwasanaethau mamolaeth. | | | |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V14 | **Caiff y cofnodion a gedwir gan bob bydwraig eu harchwilio'n flynyddol.** ***Rheol 9.*** | • Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn cael archwiliad o'r cofnodion a gedwir (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Gofynnir i bob bydwraig archwilio 2 gyfres o nodiadau achos.<br>• Lluniwyd y ffurflen gan y Goruchwylwyr Bydwragedd gyda chymorth y cynorthwyydd ysgrifenyddol.<br>• Cynhelir yr archwiliad gan y Goruchwylwyr Bydwragedd a chyda bydwragedd penodol ym mhob safle i drefnu a goruchwylio'r broses.<br>• Lluniwyd y ffurflen er mwyn gallu casglu a dadansoddi data mwy ystyrlon a chywir.<br>• Roedd y cwestiynau hefyd yn golygu bod modd casglu a dadansoddi data Cronfa Risg Cymru.<br>• Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi'n electronig gan yr adran Archwilio.<br>• Lledaenir y canlyniadau ymhlith y bydwragedd yn ystod y diwrnodau sgiliau gorfodol a chyfarfodydd rheolwyr y wardiau.<br>• Mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn copi o ganlyniadau'r archwiliad blynyddol o'r cofnodion.<br>• Rhoddir dalen i'r holl fydwragedd gan gynnwys crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer eleni a'r blynyddoedd blaenorol.<br>• Mae'r ddalen hefyd yn cynnwys materion penodol lle y mae angen gwneud gwelliannau o ran cadw cofnodion.<br>• Trafodir y ddalen hon yn yr adolygiad goruchwylio blynyddol.<br>• Mae cynlluniau gweithredu manwl i'w llunio o'r canlyniadau a bydd y bydwragedd yn eu derbyn.<br>• Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cytuno i amlygu themâu o'r archwiliad cofnodion yn y diwrnod astudio cyfreithiol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer bydwragedd a meddygon ym mis Mai 2013.<br>• Bydd cadw cofnodion yn cael ei gynnwys yn y Diwrnod Sgiliau a chynhelir archwiliadau sylfaenol fel rhan o'r Cynllun Pyramid newydd (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Bydd archwiliad cofnodion eleni yn dechrau yn ystod yr haf yn hytrach nag aros tan ddiwedd y flwyddyn. | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V14 | | **Ceir proses ysgrifenedig eglur i nodi pa brosesau archwilio** | **Nid oes proses ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar gyfer archwilio** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw'n eglur pa mor aml, gan bwy na sut y mae** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref.**<br>**Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | **cofnodion a fydd yn cael eu cynnal, pa mor aml, pwy fydd yn cymryd rhan a sut y bydd y canlyniadau ar gyfer gwella yn cael eu rhannu gyda phob bydwraig**<br><br>**Ceir enghreifftiau o offerynnau archwilio cofnodion i ddangos sut y cynhelir yr archwiliadau**<br><br>**Ceir enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd o flwyddyn i flwyddyn a pha wersi a ddysgwyd o bob un ohonynt**<br><br>**Ceir enghreifftiau rheolaidd o sut y mae'r gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu rhannu â phob bydwraig**<br><br>**Ceir tystiolaeth o archwilio a gwella rhwng adolygiadau**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio pob un o'r camau uchod a siarad am newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad** | **cofnodion ond mae tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, mewn gwahanol fformatau, gan wahanol bobl/timau a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n aml**<br><br>**Ceir un offeryn archwilio o leiaf i ddangos sut y cynhelir archwiliad**<br><br>**Ceir rhai enghreifftiau o archwiliadau blaenorol ond nid ydynt yn systematig**<br><br>**Ceir rhai enghreifftiau o wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu, ond nid yw hyn yn gyson**<br><br>**Ceir tystiolaeth o ail-archwilio, ond mae gwelliant parhaus yn llai amlwg**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r rhan fwyaf o'r camau uchod a siarad am sut y mae hyn wedi dylanwadu ar arferion gwaith** | **archwiliadau'n cael eu cynnal**<br><br>**Nid oes unrhyw offerynnau archwilio cydnabyddedig i ddangos sut y bydd archwiliadau cadarn yn cael eu cynnal neu wedi cael eu cynnal**<br><br>**Dim ond enghreifftiau ad hoc a geir o archwiliadau cofnodion**<br><br>**Ceir enghreifftiau ad hoc o rannu'r gwersi a ddysgwyd**<br><br>**Prin yw'r dystiolaeth o ail-archwilio neu welliannau, neu ddim tystiolaeth o gwbl**<br><br>**Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio unrhyw un o'r camau uchod neu siarad am sut y mae archwiliadau cofnodion yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |
| **Sylwadau'r AGLI**<br><br>Gwelwyd tystiolaeth gref bod archwiliadau o'r cofnodion yn cael eu cynnal ar draws y Bwrdd Iechyd ac ar sail unigol. Roedd y cyflwyniad ar ganfyddiadau'r archwiliad o'r cofnodion, meysydd i'w gwella gydag argymhellion a'r cynlluniau gweithredu manwl yn rhagorol yn ogystal â'r ffaith bod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r tîm amlddisgyblaethol ac nid dim ond un proffesiwn. Gwelwyd tystiolaeth yn y cynlluniau gweithredu bod Goruchwylwyr Bydwragedd y Bwrdd Iechyd yn arwain ar gyflwyno gwelliannau ac mae'r bydwragedd i gyd yn derbyn llythyr gan y pennaeth bydwreigiaeth yn rhoi gwybod beth y mae angen iddynt ei wneud cyn cael eu hadolygiad goruchwylio blynyddol gyda'u Goruchwyliwr Bydwragedd a sut y bydd gwersi a ddysgwyd o'r archwiliad o'r cofnodion yn cael eu trafod yn unigol gyda nhw. Mae'r crynodeb o ganfyddiadau'r archwiliad, gyda chymariaethau rhwng blynyddoedd, yn enghraifft arall o arfer da yn y maes pwysig hwn o ymarfer clinigol. Roedd y bydwragedd y cyfarfu'r tîm â nhw yn ystod yr ymweliad arolygu yn deall y broses ar gyfer cadw cofnodion ac roeddynt wedi cymryd rhan. Roedd y llyfr adnoddau Goruchwyliaeth a baratowyd ar gyfer dechreuwyr newydd hefyd yn cynnwys yr adroddiad cryno ynglŷn â chadw cofnodion gyda dadansoddiad o dueddiadau bob tair blynedd er mwyn i fydwragedd wybod o'r dechrau pa mor bwysig yw'r mater hwn. | | | |

| |
|---|
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Byddai'n ddefnyddiol gweld peth tystiolaeth o gynlluniau gweithredu a luniwyd o ganlyniad i ganfyddiadau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o broses yr adolygiadau goruchwylio blynyddol ar ôl gofyn i fydwragedd nodi anghenion dysgu, er mwyn i dueddiadau a themâu allu cyfrannu at gynlluniau hyfforddi yn y dyfodol. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V15 | **Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth sy'n berthnasol i oruchwylio bydwragedd yn statudol, e.e. drwy gyfrwng cylchlythyrau, bwletinau, gwefannau, e-bost, negeseuon llais ac adroddiadau gan yr AGLI, Cyflogwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd.** | • Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymdrechu'n barhaol i godi proffil goruchwylio.<br>• Mae pob bydwraig sydd newydd ei chyflogi yn cael trafodaeth gyda'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt yn ystod ei chyfnod sefydlu. Maent hefyd yn cael cyswllt â Goruchwylwyr Bydwragedd eraill ac ysgrifennydd y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br>• Mae pob bydwraig sydd newydd ei chyflogi yn derbyn llyfryn yn ystod y cyfnod sefydlu sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phob agwedd ar oruchwylio (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae gan bob un o'r 3 safle hysbysfwrdd penodol ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am y Goruchwylwyr Bydwragedd a goruchwyliaeth statudol.<br>• Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynglŷn â chymorth i rieni ar gael ar ffurf ysgrifenedig mewn mannau perthnasol ym mhob un o'r tri safle (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Cyhoeddir gwybodaeth ynglŷn â goruchwyliaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd ar wefan a mewnrwyd y Bwrdd Iechyd, safleoedd y Bwrdd Iechyd ar You Tube, Twitter a Face Book.<br>• SF yw'r cyswllt y Goruchwylwyr Bydwragedd â'r Adran Gyfathrebu.<br>• Ar dudalen 15 o lyfryn y Bwrdd Iechyd 'Where will I have my baby?' rhoddir gwybodaeth ynglŷn â Goruchwylwyr Bydwragedd ac ynglŷn â chysylltu â Goruchwylwyr Bydwragedd, a manylion llyfryn y Cyngor Nyrsio a Bydwragedd 'Support For Parents' (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae adroddiad blynyddol y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael ei ddosbarthu'n eang ymhlith rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol.<br>• Mae'r Cynllun Pyramid yn ffordd dda o hybu goruchwyliaeth – gwahoddir Goruchwylwyr Bydwragedd i fynd gyda JP ar ymweliadau â wardiau. Bwriedir trafod a chynllunio'r Cynllun Pyramid ymhellach (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI (VN) yn gobeithio cymryd rhan yn y Cynllun Pyramid a fydd yn adnodd defnyddiol i gael adborth gan fenywod a bydd yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at gynlluniau gweithredu yn y dyfodol i wella goruchwyliaeth. | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V15 | | **Ceir tystiolaeth amlwg y rhoddir** | **Mae rhywfaint o wybodaeth am** | **Nid oes gwybodaeth am Oruchwylwyr** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gref.**<br>**Ni chafodd unrhyw gamau eu hawgrymu ar gyfer datblygiad** | **cyhoeddusrwydd i Oruchwylwyr Bydwragedd yn yr holl fannau y mae menywod a theuluoedd yn ymweld â hwy**<br><br>**Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ynghyd â dogfennau ysgrifenedig eraill sy'n esbonio wrth fenywod pam y gallent fod yn dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd, a sut i wneud hynny**<br><br>**Ceir gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol am swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a sut i gysylltu â hi**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei rannu gyda fforymau defnyddwyr megis y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac ar draws y sefydliad i fyny at lefel y Bwrdd**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn ymwybodol bod cylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cael ei rannu gyda bydwragedd a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg, ond nid yw'n gyson ym mhob man lle y gwelir menywod a theuluoedd**<br><br>**Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gael ond nid oes gwybodaeth ychwanegol wedi'i pharatoi'n lleol ac nid yw'n eglur i fenywod pam y byddent efallai'n dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd**<br><br>**Ceir cyfeiriad at Oruchwylwyr Bydwragedd ar y wefan ond dim manylion ychwanegol**<br><br>**Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei rannu gyda'r Bwrdd ond tystiolaeth gyfyngedig sydd i ddangos ei fod wedi ei rannu'n ehangach**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Bydwragedd yn amlwg i aelodau'r cyhoedd ei gweld mewn unrhyw fan**<br><br>**Nid oes taflenni a baratowyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nac yn lleol ar gael i fenywod**<br><br>**Ni chyfeirir at Oruchwylwyr Bydwragedd ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol**<br><br>**Dim ond gyda'r Bwrdd y rhannwyd yr adroddiad blynyddol, os o gwbl**<br><br>**Mae llai na 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ac yn gallu disgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLI**

Safon y cafwyd tystiolaeth dda ar ei chyfer ac mae'n amlwg fod gan y Goruchwylwyr Bydwragedd ymrwymiad cryf i godi proffil goruchwyliaeth ymhlith bydwragedd a defnyddwyr. Mae'r llyfr adnodd Goruchwylio sydd newydd ei ddatblygu ar gyfer dechreuwyr newydd yn wych yn ogystal â'r astudiaeth ansoddol ar raddfa fach o brofiadau menywod o ofal cynnar cyn-geni a gynhaliwyd gan y Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant. Ceir dolen ar wefan y Bwrdd Iechyd i dudalen y Goruchwylwyr Bydwragedd ac mae'r ffaith y defnyddir cyfryngau cymdeithasol eraill yn arfer da. Roedd hysbysfyrddau ar gyfer cleientiaid, Goruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd yn amlwg ym mhob rhan yr ymwelodd y tîm â nhw, ac roedd arnynt wybodaeth ynglŷn â goruchwyliaeth a pham y gallai fod angen i chi gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd. Mae gan y Bwrdd Iechyd Bwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth sydd wedi'i ddatblygu'n dda ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn chwarae rhan weithredol yn y cyfarfodydd. Cynhaliodd tîm yr AGLI yr archwiliad gyda chymorth cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, a roddodd ddisgrifiad cadarnhaol o'r modd yr

| |
|---|
| oedd Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnig cymorth i fenywod ac yn gyffredinol roedd o’r farn bod y gwasanaethau yn gwrando ar safbwyntiau menywod. Roedd adroddiad blynyddol yr AGLl ac adroddiad blynyddol y Bwrdd Iechyd wedi eu rhannu gyda’r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac ar lefel y Bwrdd trwy bapur briffio a baratowyd gan y pennaeth bydwreigiaeth ac a gyflwynwyd gan y cyfarwyddwr nyrsio. Gwelwyd cylchlythyr yr AGLl ar hysbysfyrddau’r Goruchwylwyr Bydwragedd ac roedd yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd a rhai o’r bydwragedd a gyfwelwyd yn ystod yr ymweliad yn gallu disgrifio ei ddiben. Rhoddwyd rhai enghreifftiau mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd lle mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi gweithio fel tîm gyda bydwragedd i gefnogi menywod pan fo menywod yn gwneud dewisiadau nad ydynt o reidrwydd yn cyd-fynd â lefel eu risg, gan ddefnyddio’r offeryn cyfathrebu SBAR. Mae’r llyfryn gwybodaeth i gleientiaid, ‘Where will I have my baby?’ yn cynnwys tudalen benodol ar gyfer goruchwyliaeth a dolen i wefan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gael mwy o wybodaeth, sy’n enghraifft arall o arfer da. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl wedi cynnal yr ymweliad Pyramid cyntaf ers yr archwiliad blynyddol ac roedd o’r farn bod ward 18 yn drefnus iawn, gwybodaeth ac agwedd y staff yn dda a bod yr adborth gan fenywod, heb eithriad, yn gadarnhaol ac yn llawn canmoliaeth. |
| **Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Nid oes argymhellion ar gyfer datblygiad. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|
| V16 | **Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd eu cynnwys ym mhrosesau ffurfio polisïau, gosod safonau a monitro arferion a chyfarpar er budd Iechyd a Diogelwch.** | • Ceir Fforwm Iechyd a Diogelwch sy'n cyfrannu at y grŵp rheoli risg.<br>• Mae gan yr holl fydwragedd cymunedol lyfryn penodol sy'n rhestru pob darn o offer angenrheidiol.<br>• Mae'r llyfryn hefyd yn rhoi manylion cynllun y bag offer i sicrhau eu bod yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>• Diweddarwyd y rhestr offer hon ym mis Chwefror 2013.<br>• Ychwanegwyd Mwgwd Breuannol 'i-gel' a chael gwared ar y Laryngosgôp a Guedel.<br>• Mae bagiau ac offer pob bydwraig gymunedol yn cael eu harchwilio yn ystod yr adolygiad blynyddol a llofnodir eu llyfryn.<br>• Mae'n ofynnol hefyd i bob bydwraig gymunedol gael archwilio'i hoffer perthnasol, er enghraifft tafol pwyso, Entonox a Doppler gan EBME yn rheolaidd ac mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd yn cadarnhau hyn ar adeg yr adolygiad blynyddol.<br>• Bydd y Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt a'r Goruchwyliwr Bydwragedd LO yn llunio adroddiad ynglŷn â chydymffurfiad y Bwrdd Iechyd o ran archwilio offer cymunedol.<br>• Mae gan yr holl unedau dadebru 'resuscitaire' yn y Bwrdd Iechyd restr gynnwys sydd wedi eu cytuno ac maent yn cael eu cadarnhau'n rheolaidd (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Cynhelir archwiliad ar y weithdrefn gadarnhau.<br>• Mae'r unedau dadebru yn Ysbyty Tywysoges Cymru ar gofrestr "Mewn Perygl" gan nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau newydd a gyflwynwyd gan y Cyngor Dadebru yn 2010.<br>• Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain o ran pob agwedd ar Fonitro'r Ffetws yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt wedi llunio Canllaw Monitro Ffetws gan ei lamineiddio a'i lynu wrth bob uned dadebru ym mhob safle.<br>• Mae sticer CTG yn ystod genedigaeth wedi ei gyflwyno i'w ddefnyddio bob awr gyda monitro ffetws parhaol i sicrhau y glynir at Ganllawiau NICE yn ystod genedigaeth.<br>• Mae sticer CTG cyn-geni'n cael ei gyflwyno i sicrhau bod cofnodion cyn-geni yn cael eu hasesu yn unol â Chanllawiau NICE (gweler y ffeil dystiolaeth). | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: Cryf Cymedrol Gwan | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| V16<br><br>**AGLI – BODLONWYD yn unol â thystiolaeth gymedrol i gref. Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | **Ceir polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward ac ar gyfer bydwragedd cymunedol** | **Nid oes polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, ond gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio sut y mae hyn yn digwydd** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio sut na pha mor aml y gwneir hyn** |
| | **Ceir tystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei archwilio'n aml o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel, ond nid yw hyn yn gyson** | **Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |
| | **Ceir tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio a monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, ond nid yw hyn yn gyson** | **Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae'r ffurflenni ar gyfer offer y bydwragedd cymunedol yn ganllaw da i fydwragedd ynglŷn â'r hyn y dylent fod yn ei gario, ac yn eu hatgoffa eu bod yn gyfrifol am archwilio a rhoi gwasanaeth i'w hoffer. Byddai wedi bod yn ddefnyddiol gweld rhai o enghreifftiau o'r ffurflenni hyn wedi eu llenwi ac unrhyw gamau a gymerwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd os nodir problemau. Yn yr un modd, nid yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer yr offer dadebru 'resuscitaire' yn dystiolaeth uniongyrchol bod y Goruchwyliwr Bydwragedd wedi cymryd camau o'r fath, wedi monitro cydymffurfiad nac wedi llunio'r ffurflen gan mai pediatrydd sydd wedi'i llofnodi a nodwyd y dylai fod wedi'i hadolygu ym mis Ebrill 2012. Er hyn, yn ystod ymweliadau â wardiau gan yr AGLI, gwelwyd tystiolaeth bod archwiliadau rheolaidd yn digwydd ac yn cael eu llofnodi. Mae cofnod yr hyfforddiant CTG gan ddefnyddio'r pecyn K2 yn dangos gweithgaredd blwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn dangos bod y gweithgaredd hwn yn cael ei fonitro. Byddai gweithdrefn ysgrifenedig yn ddefnyddiol, gan gynnwys cyfranogiad Goruchwylwyr Bydwragedd mewn hyfforddiant a'r camau y mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi'u cymryd pan nad yw bydwragedd yn llwyddo nac hyd yn oed yn ceisio asesiad. Roedd digon o dystiolaeth bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r CTG gan gynnwys y polisi 'llygaid ffres' a sticer ar gyfer adolygu CTG yn y ward esgor a'r cymorth cof CALMLY i gynorthwyo clustfeinio ysbeidiol mwy deallus o guriad calon y ffetws. Dyma enghreifftiau o arfer da y mae'n ymddangos iddynt gael eu harwain gan y goruchwylwyr.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Byddai adroddiad cryno ynglŷn â gweithgarwch CTG a sut y lledaenwyd y gwersi a ddysgwyd o'r gweithgarwch pwysig hwn yn ychwanegiad defnyddiol i'r dystiolaeth ar gyfer y safon hon. Byddai enghreifftiau o archwiliadau offer a gwblhawyd ac unrhyw gynlluniau gweithredu a baratowyd o ganlyniad i ganfyddiadau hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI: |
|---|---|---|---|---|
| V17 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi gwybod i'w cyflogwr os ydynt yn pryderu y gallai adnoddau annigonol beryglu diogelwch y cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.** | • Cofnodir lefelau gweithgarwch bob 4 awr pan fo'r Uned ar lefel gweithgarwch cyfartalog ac yn fwy aml pan fo lefel gweithgarwch yn cynyddu.<br>• Mae cerdyn sgorio'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn dangos gweithgarwch Llywodraethu arall bob 4 awr sy'n cyd-fynd â'r data cymhlethdod.<br>• Bydd cynnydd mewn cymhlethdod yn sbarduno'r gweithdrefnau galw cynyddol.<br>• Ar adegau pan fydd galw cynyddol, mae'r sgôr cymhlethdod yn fodd hanfodol o gyfathrebu anghenion y Gwasanaeth i Oruchwylwyr Bydwragedd a rheolwyr (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae'r AGLI yn derbyn rhybudd os yw Unedau yn cau trwy'r ffurflen rybudd briodol ar gronfa ddata'r AGLI.<br>• Mae diffyg offer neu offer annigonol i fydwragedd a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion hefyd yn cael ei amlygu a'i nodi ar y gofrestr risg.<br>• Mae unrhyw faterion perthnasol ynglŷn â lefelau staffio yr hysbyswyd y Goruchwyliwr Bydwragedd ar alwad amdanynt yn cael eu cofnodi trwy ffurflen SBAR a'u trafod mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd.<br>• Nododd bydwraig gymunedol wrth Oruchwyliwr Bydwragedd ei bod yn anodd dod o hyd i gyfeiriadau mewn ardaloedd dieithr – mae hyn bellach wedi ei ddatrys trwy archebu offer llywio â lloeren a fydd ar gael ym mhob safle i'r bydwragedd cymunedol eu defnyddio. Hefyd, darperir llyfr mapiau A-Z i fydwragedd cymunedol (gweler y ffeil dystiolaeth).<br>• Mae bagiau'r bydwragedd cymunedol yn cael eu harchwilio ar adeg eu hadolygiad goruchwylio blynyddol i sicrhau bod ganddynt yr holl offer angenrheidiol, ac ymdrinnir ag unrhyw ddiffygion ar yr adeg honno.<br>• Mae bydwragedd sydd newydd eu cyflogi yn derbyn copi o'r Polisi Galw Cynyddol yn ystod eu cyfnod Sefydlu, gan gynnwys y weithdrefn ar gyfer troi at ymgynghorydd. | | **2012/13 Dim camau wedi eu cynllunio** |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V17<br><br>**AGLI - BODLONWYD yn unol â** | | **Mae cofnodion cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn dangos y trafodir materion staffio** | **Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â lefelau staffio diogel** | **Nid oes tystiolaeth bod materion o'r fath yn cael eu trafod gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn eu cyfarfodydd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **thystiolaeth gymedrol.<br>Nodwyd argymhellion er mwyn datblygu.** | **neu risgiau eraill i ddiogelwch cleifion<br><br>Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd i gynorthwyo bydwragedd i gynnal arferion gwaith diogel ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny<br><br>Ceir tystiolaeth ysgrifenedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi eu pryderon gyda'r pennaeth bydwreigiaeth pan fo'u llwyth gwaith eu hunain yn peryglu eu gallu i amddiffyn y cyhoedd neu pan fo pryderon o'r fath yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny** | **ac ati, ond nid yw mor eglur pa gamau a gymerwyd o ganlyniad<br><br>Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu ond nid yw'r rhain yn gadarn ac nid yw'r canlyniadau wedi'u diffinio'n eglur<br><br>Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi pryderon gyda'r pennaeth bydwreigiaeth ac eraill, ond ni fu unrhyw gamau dilynol na newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i hynny** | |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae'r trafodaethau a glywyd mewn cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd a'r cofnodion yn dangos y ceir peth sgwrs am faterion staffio a materion diogelwch eraill. Ceir ffurflenni SBAR i Oruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer menywod risg uchel sy'n dewis geni mewn man risg isel ac yn fwy diweddar, tystiolaeth o asesiad risg i fydwragedd cymunedol y mae angen iddynt fynd i enedigaethau yn y cartref sydd y tu allan i'w hardal nhw a darparu llyfr mapiau A-Z ac offer llywio â lloeren ar eu cyfer. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI a'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt yn cyfarfod bob chwarter gyda'r pennaeth bydwreigiaeth a chyda'r cyfarwyddwr nyrsio bob hanner blwyddyn, a byddai unrhyw faterion a oedd yn peri pryder yn cael eu codi yn y fforymau hyn neu ar sail ad hoc yn ôl y gofyn. Mae'r arfer o ysgrifennu adroddiad cryno gan reolwyr ar ôl adolygiad achos neu ymchwiliad ym maes goruchwylio bellach yn gwella gan fod mwy o bwyslais wedi bod ar ddau adroddiad a swyddogaethau ar wahân yn ystod y flwyddyn. Mae angen mwy o waith o ran ysgrifennu adroddiadau a rhoi adborth yn brydlon i'r Pennaeth Bydwreigiaeth.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd lunio cynlluniau gweithredu ynglŷn â materion yr hysbysir y rheolwyr amdanynt ar ôl ymchwiliadau, ac yna gwneud gwaith dilynol trwy gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd i sicrhau bod camau wedi eu cymryd, newidiadau wedi'u sefydlu i'r modd y darperir y gwasanaeth, a chynllun wedi'i baratoi ar gyfer archwilio canlyniadau.

## 5 Casgliad

**5.1** Roedd yr AGLI yng Nghymru yn cydnabod bod angen adolygu proses archwilio Goruchwylwyr Bydwragedd a'i symleiddio i sicrhau ei bod yn addas at ei diben, ac y byddai'n ychwanegu at y mecanweithiau sicrwydd sy'n bodoli o ran gwella diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, roedd yr AGLI hefyd yn awyddus i osgoi dyblygu ymdrechion Goruchwylwyr Bydwragedd drwy lunio proses fwy di-dor i sicrhau y byddai canlyniadau ac argymhellion yn berthnasol ac yn rhoi sail i'r ffordd ymlaen mewn cyfnodau cynllunio canlynol. Mae hon yn broses ddynamig a bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn cydweithio â Goruchwylwyr Bydwragedd a Phenaethiaid Bydwreigiaeth i wneud mwy i fireinio'r archwiliad blynyddol er mwyn iddo ategu'r trefniadau llywodraethu mewnol yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r AGLI a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**5.2** Dylid cymeradwyo goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg am eu gwaith hyd yn hyn ac am gyfraniad unigolion a'r tîm yn ei gyfanrwydd at wella diogelwch y cyhoedd. Mae'r AGLI yn ddiolchgar i'r holl staff a gyfrannodd at yr ymweliad archwilio ac at gasglu'r dystiolaeth, ac i'r Bwrdd Iechyd am eu croeso.

**5.3** Mae'r AGLI yng Nghymru yn edrych ymlaen at gydweithio â phob Goruchwyliwr Bydwragedd i barhau i sicrhau bod y swyddogaeth oruchwylio'n fwy amlwg ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gefnogi'r gwaith o Ddiogelu Goruchwyliaeth at y Dyfodol gan ddangos i'r Bwrdd bod goruchwylio yn ychwanegu gwerth go iawn at wasanaethau bydwreigiaeth a bod swyddogaeth y goruchwyliwr yn y pen draw'n gwella diogelwch y cyhoedd drwy gefnogi gweithlu bydwreigiaeth diogel.

.

**Atodiad A**

## AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen yr Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad: Dydd Iau, 21 Chwefror 2013**
**Lleoliad: Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

| Rhif | Amser | Gweithgaredd | |
|---|---|---|---|
| **1** | **09.00** | **Cyrraedd a Choffi** | |
| **2** | 09.15 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI<br><br>Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i egluro diben archwilio goruchwyliaeth, a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>I'w gwahodd – Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Cyfarwyddwr Clinigol<br>Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt<br>Goruchwylwyr Bydwragedd Lleol<br>Rheolwr Risg Corfforaethol<br>Cynorthwy-ydd gweinyddol y Goruchwylwyr Bydwragedd | |
| **3** | 09.30 | Cyflwyniad 20 munud gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol i roi golwg gyffredinol gan gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o adroddiad blynyddol lleol a chynllun gweithredol 2012-2013<br>2. Enghreifftiau o Arfer Da<br>3. Enghreifftiau o broffil goruchwylio yn lleol<br>4. Gwybodaeth allweddol ar gyfer adroddiad blynyddol lleol 2012-2013<br>5. Cyfeiriad y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol a chynllun gweithredol arfaethedig ar gyfer 2013-2014 | |
| **4** | **10.30** | **Coffi** | |
| **5** | 10.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Rheolwr Risg (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod ag arweinwyr ym maes Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, ac adolygu enghreifftiau o Oruchwylwyr Bydwragedd yn ymgysylltu â defnyddwyr (Tîm 2) |
| **6** | 11.15 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Clinigol (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â myfyrwyr bydwreigiaeth, addysgwyr ymarfer, mentoriaid bydwragedd (Tîm 2) |
| **7** | 11.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â Goruchwylwyr Bydwragedd lleol i adolygu tystiolaeth o safonau archwilio V1, V3, V4, V11, V12, V13, V14, V16, a V17. | |
| **8** | 13:00 | **Cinio** | |
| **9** | 13:30 | Tîm Adolygu'r AGLI i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol | |
| **10** | 15.00 | Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad | |
| **11** | 16.00 tan 16.15 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth ac eraill, crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf | |

# Atodiad B

**Rhestr o'r rhai a gymerodd ran ym mhroses yr Archwiliad Blynyddol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**

**Cyfarwyddwr Nyrsio** – Victoria Franklin

**Pennaeth Bydwreigiaeth/Goruchwyliwr Bydwragedd** – Cathy Dowling

**Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth/Goruchwyliwr Bydwragedd** – Jane Phillips

**Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt** – Gwynneth Singh

**Rheolwr Risg/Goruchwyliwr Bydwragedd dan Hyfforddiant** – Wendy Sunderland-Evans

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol y Goruchwylwyr Bydwragedd** – Pat Beresford

**Doula/Cadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth** – Kath Harbisher (i ymuno â Thîm Adolygu'r AGLI)

**Goruchwylwyr Bydwragedd a oedd yn bresennol** – Liz Rees, Caroline Penhallurick, Sarah Fox, Lesley Owen, Carolyn Williams, Anne Lang, Kath Thomas, Dawn Apsee, Jayne Cockwell.

**Pobl y cyfarfu Tîm yr AGLI â nhw**

**Cyfarwyddwr Clinigol** – Myriam Bonduelle (cynhadledd ffôn)

**Profiad Cleifion** – Paul Jones

**Cynrychiolydd Goruchwylwyr Bydwragedd ar y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth** – Liz Rees

**Defnyddwyr Eraill**: LS

**Bydwraig Arweiniol dros Addysg** – Susanne Darra

**Bydwragedd dan Hyfforddiant:** 1 x blwyddyn 1$^{af}$; 1 x 3$^{edd}$ flwyddyn a 1 x 18 mis.

**Addysgwr Ymarfer** – Sarah Partridge